Pontsian yn cipio Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion 2024

Cynhaliwyd Eisteddfod Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion ar ddwy noson - nos Wener, yr 11eg a dydd Sadwrn, y 19eg o Hydref ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Mae'r Eisteddfod yn un o brif atyniadau y ffermwyr ifanc yn eu calendar llawn o weithgareddau.

Cloriannwyd y cystadlaethau gan y canlynol - Cerdd – Mrs Nicki Roderick, Caerfyrddin; Llefaru – Mr Siôn Jenkins, Caerdydd; Adran Ysgafn – Mr Alun Elidyr, Talybont; Llên – Gruffudd Eifion Owen, Caerdydd; Dawnsio Gwerin – Mr Gethin Page, Caerfyrddin; Dawnsio Disgo – Ms Lucy Evans, Theatr Felinfach; Celf – Ms Elonwy Thomas; Ffotograffiaeth – Mr Aled Davies; Rhaglen Clwb – Mrs Carys Thomas; y cyfeilydd oedd Mrs Lona Phillips. Llywydd anrhydeddus yr Eisteddfod oedd Mrs Gwyneth Ayers, Llanpumsaint, a chafwyd ganddi araith bwrpasol iawn a rhodd anrhydeddus i'r Mudiad. Diolch i gwmni Ani-bendod; Technegol Ltd, Cyswllt Ffermio a Phanto Nadolig Theatr Felinfach am noddi a diolch i Halen a Pupur am ein bwydo trwy gydol y dydd.

Enillwyd yr Eisteddfod gan glwb Pontsian, gyda 91 o farciau, gyda chlwb Llanwenog yn ail gyda 79 o farciau a Felinfach yn drydydd gyda 75 o farciau. Sioned Caryl Davies, Cadeirydd y Sir, oedd yng ngofal Seremoni y Gadair a'r Goron a chanwyd cân y seremoni gan Dafydd James a Tomos Rees o glwb Troedyraur a seiniwyd y Corn Gwlad gan John Jenkins o glwb Lledrod. Trafodwyd y feirniadaeth gan Sioned Caryl ar ran Gruffudd Eifion Owen. Enillwyd y gadair gan Ianto Jones o Glwb Felinfach gyda'i gerdd ar y thema 'Gwreiddiau'. Catrin Evans o Glwb Mydroilyn oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth am y goron, gyda'i darn rhyddiaith ar y testun 'Penbleth.'

Rhoddwyd y gadair gan Mared Lloyd-Jones, Brenhines y Sir a Gwern Thomas, Ffermwr Ifanc y Sir, o waith Bleddyn ac Owain Thomas, Felinfach. Elen Davies, Pontsian, ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y gadair ac Elin Williams, Tregaron, ddaeth yn drydydd. Rhoddwyd y goron gan Sioned Caryl Davies, Cadeirydd y Sir, ac fe'i gwnaethwyd gan Carwyn Davies, Llanwenog. Twm Ebbsworth, Llanwenog ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y goron, gyda Heledd Evans, Caerwedros yn drydydd.

Dyma restr o'r rhai ac enillodd gwpanau'r Eisteddfod.

Parti Llefaru: Cwpan her Janet Morgan, Pant-Defaid – Llanwenog

Parti Deusain: Cwpan Coffa her parhaol Penlanlas Isaf – Troedyraur

Meimio i Gerddoriaeth: Cwpan her Mared Rand Jones - Penparc

Sgets: Cwpan her parti drama Dyffryn Cletwr – Pontsian

Emyn Nofis: Cwpan Her Einir Ryder – Richard Jones, Pontsian

Unawdydd gorau: Cwpan her Mr a Mrs Gwyndaf James – Lowri Elen Jones, Bro'r Dderi

Llefarydd gorau: Cwpan y diweddar Mr a Mrs Elfyn Owen – Elin Williams, Tregaron

Côr: Cwpan Her y diweddar Arglwydd Geraint Howells – Felinfach

Marciau uchaf yn y Gwaith Cartref: Cwpan her Heather Price, Esgereinon – Pontsian

Marciau uchaf yn yr Adran Ysgafn: Tlws her Nia George – Pontsian

Marciau uchaf yn yr Adran Lwyfan: Tlws her Teulu Hatcher - Pontsian

Ail fuddugol yn yr Eisteddfod - Tlws Coffa Mr Eryl Jones, Mydroilyn - Llanwenog

Clwb Buddugol: Tlws Teulu Hafod Iwan – Pontsian

Cafwyd hefyd canlyniadau y cystadlaethau canlynol – **Llyfr Lloffion** – 1. Mydroilyn; 2. Felinfach; 3. Trisant. **Llyfr Trysorydd** – 1. Troedyraur; 2. Trisant; 3. Mydroilyn. **Llyfr Cofnodion** – 1. Elan Jenkins, Llanwenog; 2. Mared Jones, Felinfach; 3. Elin Onwy ac Alis Evans, Pontsian.

Dyma ganlyniadau Eisteddfod Nos Wener –

Dawnsio Disgo – 1. Mydroilyn; 2. Llangwyryfon**. Darn heb Atalnodi** – 1. Jano Evans, Caerwedros; 2. Sion Wyn Evans, Felinfach; 3. Dafydd Jones, Trisant. **Dawnsio Gwerin** – 1. Mydroilyn. Adrodd Digri – 1. Gwion Ifan, Pontsian; 2. Ella Evans, Felinfach; 3. Esyllt Jones, Llanwenog. **Meimio i Gerddoriaeth** – 1. Penparc; 2. Talybont; 3. Llangwyryfon.

Canlyniadau Dydd Sadwrn –

Unawd 13 neu iau - 1. Gwennan Owen, Pontsian; 2. Ella Gwen Keevan, Tregaron; 3. Tirion Tomos, Llanwenog. **Llefaru 13 neu iau** – 1. Meia Evans, Trisant; 2. Magw Thomas, Pontsian; 3. Isaac Rees, Caerwedros. **Unawd 17 neu iau** – 1. Alwen Owen, Pontsian; 2. Fflur McConnell, Mydroilyn; 3. Anni Grug Lewis-Hughes, Tregaron. **Llefaru 17 neu iau** – 1. Elin Williams, Tregaron; 2. Mari Lois Jones, Llanwenog; 3. Elen Morgan, Llanwenog. **Unawd 28 neu iau** – 1. Lowri Elen Jones, Bro'r Dderi; 2. Ela Mablen Griffiths-Jones, Mydroilyn. **Canu Emyn Nofis** – 1. Richard Jones, Pontsian; 2. Mari Evans, Llanwenog; 3. Osian Jenkins, Llanddewi Brefi. **Llefaru 28 neu iau** - 1.Ela Mablen Griffiths-Jones, Mydroilyn; 2. Alaw Fflur Jones, Felinfach; 3. Glesni Thomas, Pontsian. **Unawd Offerynnol** – 1. Alwena Owen, Pontsian; 2. Mali Gerallt Lewis, Felinfach; 3. Guto Davies, Tregaron**. Unawd Alaw Werin** – 1. Lowri Elen Jones, Bro'r Dderi; 2. Beca Williams, Talybont; cydradd 3. Mari Evans, Llanwenog a Tirion Tomos, Llanwenog. **Unawd Sioe Gerdd neu Ffilm 18 neu iau** – 1. Fflur McConnell, Mydroilyn; 2. Mari Evans, Llanwenog; 3. Tirion Tomos, Llanwenog. **Ymgom** – 1. Bro'r Dderi; 2. Llanwenog; 3. Pontsian. **Canu Emyn** – 1. Lowri Elen Jones, Bro'r Dderi; 2. Ela Mablen Griffiths-Jones, Mydroilyn; 3. Cadi Williams, Talybont. **Deuawd** – 1. Beca a Cadi, Talybont; 2. Ianto ac Ella, Felinfach; 3. Alwena a Gwenan, Pontsian. **Parti Llefaru** – 1. Llanwenog; 2. Tregaron; 3. Lledrod. **Unawd Sioe Gerdd 19-28 oed** - 1. Beca Williams, Talybont; 2. Lowri Elen Jones, Bro'r Dderi; cydradd 3. Gwawr Evans, Troedyraur ac Elen Davies, Troedyraur. **Ensemble Lleisiol** – 1. Caerwedros; 2. Troedyraur; 3. Trisant. **Sgets** – 1. Pontsian; cydradd 2. Llangeitho a Llangwyryfon; cydradd 3. Felinfach a Llanwenog. **Parti Deusain** – 1. Troedyraur; 2. Llanwenog; 3. Pontsian. **Deuawd/Triawd Doniol** - 1. Dafydd, Llew a Tomos, Troedyraur; 2. Elin, Mari ac Ioan, Tregaron;

cydradd 3ydd. Mali, Jano ac Efan, Caerwedros a Rhodri, Dylam ag Elen, Llangwyryfon. **Côr cymysg** - 1. Felinfach; 2. Pontsian.

Gwaith Cartref

Rhyddiaith – 1. Catrin Evans, Mydroilyn; 2. Twm Ebbsworth, Llanwenog; 3. Heledd Evans, Caerwedros. **Cerdd** – 1. Ianto Jones. Felinfach; 2. Elen Davies, Pontsian; 3. Elin Williams, Tregaron. **Cywaith Clwb** – 1. Llanwenog; 2. Caerwedros; 3. Llangwyryfon. **Cystadleuaeth i aelodau 16 oed neu iau** (Poster i hyrwyddo Gwaith da Ffermwyr Cymru) – 1. Sara Davies, Llanddewi Brefi; 2. Osian Hedd Jones, Mydroilyn; 3. Esyllt Jones, Llanwenog. **Cystadleuaeth i aelodau 21 oed neu iau** (Llythyr i Aelod o Senedd Cymru) – 1. Arthfael Edwards, Pontsian; 2. Lleuwen Jones, Mydroilyn; 3. Daniel Evans, Llanddewi Brefi. **Cystadleuaeth i aelodau 28 oed neu iau** (Adolygiad o Ffilm) – 1. Meinir Rees, Llanwenog; 2. Gwenno Jones, Felinfach; 3. Eiry Williams, Llangwyryfon. **Brawddeg** – 1. Fflur Meredith, Bro'r Dderi; 2Hawys Evans, Troedyraur; 3. Siriol Teifi, Pontsian. **Limrig** – 1. Angharad Evans, Mydroilyn; 2. Siriol Teifi, Pontsian; cydradd 3. Ianto Jones, Felinfach a Sara Griffiths, Trisant. **Ffotograffiaeth** - 1. Emily Lloyd-Williams, Llangwyryfon; 2. Sara Jenkins, Trisant; cydradd 3. Sophie Jones, Llanwenog a Gwenan Owen, Mydroilyn. **Celf a Chrefft** – 1. Cerys Silvestri-Jones, Caerwedros; 2. Arthfael Edwards, Pontsian; cydradd 3. Angharad Evans, Mydroilyn a Hanna Parry, Pontsian. **Cyfansoddi Darn Offerynnol** – 1. Mali Gerallt Lewis, Felinfach; 2. Ela Mablen Griffiths-Jones, Mydroilyn; cydradd 3. Malen Jenkins, Llanddewi Brefi a Gwawr Evans, Troedyraur. **Rhaglen Clwb** – 1. Penparc; 2. Felinfach; 3. Lledrod

Pob lwc i bawb a fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Cymru sydd yn cael ei gynnal eleni yn Ysgol Bro Myrddin ar yr 2il o Dachwedd.